

Annwyl Debbie,

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn EAS. Mae cynnwys y llythyr wedi'i seilio ar gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion ynghyd a gwybodaeth o sampl o ysgolion ac UCD yn yr awdurdodau addysg ar draws y rhanbarth. Rydym hefyd wedi ystyried y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan swyddogion EAS a'r adborth o arolygon o arweinwyr ysgol/UCD, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth, rhieni a disgyblion. Rydym wedi cyfeirio at y deilliannau o'r arolygon lle bo'n berthnasol, er y defnyddiwyd yr arolygon yn bennaf i lywio'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 15 Ionawr. Dyma [ddolen](#) i'r adroddiad hwnnw.

Hoffem ddiolch i'ch staff am roi o'u hamser i drafod eu gwaith gyda ni ac am ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan ofynnwyd amdani.

Yn gywir,



**Meilyr Rowlands**  
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi**

---

## **Gwaith y consortiwm rhanbarthol i gefnogi ei ysgolion ac UC Dau**

### **Mawrth – Awst 2020**

---

#### **Arweinyddiaeth a chydweithio**

Lluniwyd ymagwedd EAS at y pandemig gan fodel newid sefydliadol Dr Simon Breakspear. Mae arweinwyr EAS yn gweld effaith y pandemig ar addysg mewn tri cham: addasu at ddiben gwahanol (Mawrth – Mehefin), ailgydio, dal i fyny, paratoi (Mehefin – Medi) a recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam (Medi ymlaen). Maent yn cyfatebu'r camau hyn â chamau argyfwng, addasu a chyfle Breakspear. Mae arweinwyr yn awyddus i osgoi 'adlamu' yn awtomatig i hen ffyrdd o weithio ac i barhau ag arfer newydd a buddiol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr argyfwng.

Mae bron bob un o ymgynghorwyr her y consortiwm rhanbarthol ar secondiad o ysgolion. Er mwyn cynnal capasiti mewn ysgolion a galluogi arweinwyr i ganolbwyntio'n llawn ar anghenion eu hysgolion eu hunain, ataliodd EAS rôl yr aelodau staff hyn dros dro fel ymgynghorwyr her. Cadwodd staff EAS, gan gynnwys prif ymgynghorwyr her, mewn cysylltiad ag ysgolion, yn enwedig o safbwynt holi am eu lles. Dychwelodd aelodau staff eraill ar secondiad i'w hysgol hefyd er mwyn cynnig capasiti ychwanegol.

Trwy gydol tymor yr haf, parhaodd EAS i ymgysylltu â'i holl randdeiliaid. Mae'r rheolwr gyfarwyddwr wedi cyfarfod yn wythnosol gyda chyfarwyddwyr addysg yr holl awdurdodau lleol yn y rhanbarth. Darparodd hi grynodedb ysgrifenedig o waith EAS i bob prif swyddog gweithredol, bob chwe wythnos. Mynychodd y rheolwr gyfarwyddwr gyfarfodydd craffu awdurdodau lleol pan gafodd wahoddiad iddynt.

Parhaodd y gwasanaeth i roi adroddiadau i bob un o'i grwpiau llywodraethu o fis Mawrth ymlaen. Roedd hyn yn cynnwys y Grŵp Gweithredol ar y Cyd (JEC), Bwrdd y Cwmni a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Ystyriodd y grwpiau hyn waith a diwygiadau i gynlluniau o ganlyniad i'r pandemig, ond parhaont hefyd i ystyried materion y byddent yn eu hystyried fel arfer, fel gwerth y gwasanaeth am arian ac adroddiad yr archwiliwr allanol.

#### **Hyrwyddo dysgu**

Ar ôl cau ysgolion yn wreiddiol ym mis Mawrth, cydnabu EAS fod angen addasu ei ffyrdd o weithio er mwyn cefnogi tirlun newydd ar gyfer dysgu a gweithio mewn ysgolion ac UC Dau. Canolbwyntiodd y gwasanaeth ar gadw mewn cysylltiad rheolaidd ag ysgolion, rhwydweithiau rhanbarthol a grwpiau eraill o randdeiliaid, gan ddefnyddio plattfformau digidol i gynnal cyfarfodydd. Rhoddodd cyfarfodydd, fel y rhwydweithiau dysgu proffesiynol, blatfform i athrawon rannu arfer a syniadau ynghylch dysgu o bell. Hefyd, dechreuodd staff EAS ddatblygu adnoddau i gefnogi dulliau dysgu o bell, cynigiwyd gweminarau i gefnogi medrau digidol athrawon a dechreuodd gynnal ei raglennu dysgu proffesiynol arferol o bell. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth swyddogion EAS ymwneud yn fawr â chynllun Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru.

Canolbwyntiodd EAS lawer o'i waith ar gefnogi lles a dysgu o bell a dysgu cyfunol. Fe wnaeth staff EAS ymwneud ag amrywiaeth fawr o astudiaethau ymchwil ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol, gan gynnwys rhai gan yr OECD, UNESCO a'r Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF). Crynhônt y canfyddiadau mewn briffiau a chyflwyniadau fideo defnyddiol. Hefyd, gofynnont i ysgolion greu cyflwyniadau i rannu'u dulliau dysgu o bell a rhannont y rhain drwy'r rhestr chwarae. Rhannont amrywiaeth o fodelau a chanllawiau ar gyfer dysgu o bell a defnyddio platfformau digidol, a chyflwynont weminarau ar amrywiaeth o bynciau. Er enghraifft, rhannont ddeng nodwedd dysgu ac addysgu o ansawdd uchel mewn model dysgu cyfunol a gweithiont gyda'r tri rhanbarth arall ac Estyn ar adnodd dysgu cyfunol. Roedd presenoldeb da iawn mewn gweminarau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol, gyda chynrychiolydd o 98% o ysgolion EAS yn bresennol. Rhannodd arbenigwyr pwnc yn EAS adnoddau dysgu o bell yn benodol i bwnc.

Hefyd, ceisiodd staff EAS farn a phrofiadau ysgolion ac UC'Dau ynghylch dysgu o bell a rhannont y rhain gydag ymarferwyr a llywodraethwyr. Er enghraifft, fe wnaethant nodi a rhannu'r dulliau asesu a oedd yn fwyaf defnyddiol ym marn athrawon. Ym Mehefin 2020, rhoddodd y gwasanaeth restr wirio ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol i ysgolion ac UC'Dau. Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys camau y dylai ysgolion eu hystyried, fel cael strategaeth dysgu o bell a nodi uwch arweinydd strategol. I gyd-fynd â phob cam arfaethedig, ceir dolenni i adnoddau perthnasol EAS neu adnoddau perthnasol gan ysgolion. Roedd arweinwyr ac athrawon ysgol yn gwerthfawrogi'r deunyddiau ar ddysgu o bell a ddarparodd EAS, er bod ychydig o'r farn bod yr holl wybodaeth wedi eu llethu.

Yn gynnar yn ystod y pandemig, nododd EAS fod ar staff ysgolion ac UC'Dau, a llywodraethwyr, angen cymorth â medrau digidol. Darparodd staff EAS adnoddau fideo ar sut i ddefnyddio'r platfformau gwahanol a chyfeiriont at adnoddau a oedd ar gael drwy Hwb ac YouTube. Cynigiodd staff EAS amrywiaeth o weminarau a gweithdai ar bynciau fel defnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd a defnyddio FlipGrid trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y rhain yn boblogaidd, gyda bron i 1200 o bobl yn troi atynt. Hefyd, cynigiodd swyddogion gymorth ar gyfer prosesau recriwtio rhithwir. Cynhaliodd Estyn arolwg ymhlith arweinwyr ysgol am y cymorth a gawsant gan awdurdodau lleol a chonsortia. Roedd lefel ymateb penaethiaid i'r arolwg hwn ar draws y rhanbarth yn isel, ond roedd y penaethiaid a ymatebodd yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan swyddogion EAS i'w galluogi i fwrw ymlaen â busnes yr ysgol yn rhithwir.

Creodd EAS restr chwarae 'Cefnogi ein Hysgolion' a oedd yn fodd i leoli holl adnoddau a gwybodaeth EAS yn gysylltiedig â'r pandemig mewn un lleoliad. Roedd yn cwmpasu agweddau fel cefnogi lles, arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol, ynghyd â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Canolbwyntiodd y rhestr chwarae yn drwm ar effaith y pandemig ar wahanol agweddau ar waith ysgolion ac UC'Dau, er ei bod yn cynnwys adnoddau mwy cyffredinol ar gyfer gwella ysgolion hefyd. Ychwanegodd swyddogion at y rhestr chwarae hon yn wythnosol. Cafodd y rhestr chwarae ei chroesawu gan arweinwyr ysgolion ac UC'Dau, er bod arweinwyr o'r farn ei bod yn rhy drwsgl ac anodd ei llywio wrth i fwy o wybodaeth gael ei hychwanegu.

Ymatebodd uwch arweinwyr i farn penaethiaid am hyn a symudont y rhestr chwarae i blatfform gwahanol.

Gan nad oedd staff EAS yn gallu ymweld ag ysgolion o fis Mawrth ymlaen, ceisiant ddulliau eraill o sefydlu beth oedd yn digwydd mewn ysgolion ac UCDAu o ran dysgu. Yn nhymor yr haf, cynhaliont arolwg ar-lein a sgysiau gyda staff o ysgolion ac UCDAu am faterion fel lefelau ymgysylltiad ddisgyblion, y gwahanol blatfformau digidol roedd ysgolion ac UCDAu yn eu defnyddio, a sut roeddent yn monitro'r ddarpariaeth. O ganlyniad i'r gwaith hwn, lluniodd staff EAS adolygiad defnyddiol o ddysgu o bell yn y rhanbarth. Cwmpasodd yr adolygiad amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cysylltiad â'r rhyngwyd, mynediad at Hwb, strwythur diwrnodau dysgu o bell, ymgysylltiad disgyblion, dysgu proffesiynol ac arferion monitro. Galluogodd yr adolygiad hwn i staff EAS nodi a rhannu arfer gadarnhaol sy'n dod i'r amlwg o ysgolion ac UCDAu a nododd bod angen cymorth o ran sicrhau ansawdd. Tua diwedd tymor yr haf, sefydlodd y gwasanaeth grŵp traws-sector o ymarferwyr o ryw 40 ysgol yn y rhanbarth a'r tu hwnt i ystyried dysgu o bell a dysgu cyfunol yn fanylach, gan gynnwys dulliau asesu a sicrhau ansawdd.

Cyn y pandemig, cynigiodd EAS ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol i arweinwyr, athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr. Yn gynnar yn ystod y pandemig, sylweddolodd staff EAS y byddai'n rhaid iddynt addasu'u dulliau o gyflwyno'r ddarpariaeth hon. Symudodd EAS lawer o'i ddarpariaeth ar-lein a pharhaodd i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys cyrsiau arweinyddiaeth ac anogaeth i arweinwyr canol ac uwch arweinwyr, a sesiynau ar y Cwricwlwm i Gymru. Ymchwiliodd i'r dulliau gorau o gyflwyno hyfforddiant ar-lein ac addasodd ei ddull yn unol â hynny. Er enghraifft, cynhwysodd fideos i ychwanegu at yr hyfforddiant a threfnodd ystafelloedd ymneilltuo i hwyluso trafodaethau. Roedd y cynnig dysgu proffesiynol ar gael i bawb. Arweiniodd hyn at ymgysylltu ag ystod ehangach o lawer o ymarferwyr. Cafodd y cynnig dysgu proffesiynol ei addasu a'i ymestyn i adlewyrchu anghenion o ganlyniad i'r pandemig, ond parhaodd y gwasanaeth i gynnig ei ddarpariaeth arferol hefyd, fel anogaeth i uwch arweinwyr a'r rhaglen i gynorthwywyr addysgu. Canfu EAS fod galw mawr am ddysgu proffesiynol yn ystod y cyfnod clo, gan fod llawer o staff yn gweithio gartref. Roedd darpariaeth ar-lein yn fwy cyfleus i lawer o staff ysgolion ac UCDAu, yn bennaf gan fod hynny'n dileu amser teithio. I ddechrau, cafodd ychydig o staff ysgolion ac UCDAu drafferthion cael at gyrsiau oherwydd problemau gyda'r defnydd o wahanol blatfformau ac amseriad cyrsiau, ond aethpwyd i'r afael â'r problemau hyn, er enghraifft trwy recordio digwyddiadau dysgu proffesiynol.

Hefyd, symudodd rhwydweithiau dysgu proffesiynol ar-lein a rhoddodd y rhain gyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr ysgolion ac UCDAu gadw mewn cysylltiad â'i gilydd a dysgu o'u harferion ei gilydd. Er enghraifft, galluogodd y rhwydweithiau i ymarferwyr rannu syniadau ynghylch paratodau ar gyfer cyfnod clo rhannol neu sut i ymgysylltu â grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mewn ychydig o achosion, ymatebodd EAS i geisiadau ysgolion unigol neu awdurdodau lleol am ddysgu proffesiynol pwrpasol. Er enghraifft, addaswyd ei

raglen datblygu arweinyddiaeth ganol i fodloni anghenion ac adlewyrchu blaenoriaethau ysgolion penodol.

Yn gynnar yn ystod y pandemig, nododd tîm iaith Gymraeg EAS fod angen cynorthwyo rhieni, yn enwedig rhieni di-Gymraeg. Darparont adnoddau a syniadau i rieni disgyblion ym mhob cyfnod allweddol er mwyn eu helpu i gynorthwyo'u plant. Hefyd, nodont alw gan athrawon a staff ysgolion ac UC'Dau am adnoddau i wella'u medrau Cymraeg eu hunain. I ymateb i hynny, creont restr chwarae ddwyieithog o adnoddau a dolenni. Paratôdd staff EAS adnoddau i ysgolion, gan gynnwys rhestr o'r deg gweithgaredd dysgu o bell gorau ar gyfer dysgu Cymraeg, i bob grŵp blwyddyn.

Yn ystod y cyfnod clo, dechreuodd tîm iaith Gymraeg EAS weithio gyda staff o ysgolion, Estyn a'r rhanbarthau eraill ar gynllun Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Cynrychiolwyd y rhanbarth ym mhump o'r chwe is-grŵp a fu'n ymwneud â'r gwaith hwn, a arweiniodd at adnodd cenedlaethol ar gyfer datblygu'r Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Parhaodd EAS â'i waith yn cefnogi cyrff llywodraethol a phwyllgorau rheoli. Darparodd restr chwarae yn benodol i lywodraethwyr a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar amrywiaeth o bynciau, yn amrywio o faterion yn ymwneud â'r pandemig i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Roedd y rhain yn ychwanegol at ei ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar rolau a chyfrifoldebau penodol llywodraethwyr. Hefyd, parhaodd y gwasanaeth i gynnig gwasanaeth clerig i gyrff llywodraethol a'u cynorthwyo i symud eu cyfarfodydd ar-lein ac addasu'u prosesau ar gyfer recriwtio llywodraethwyr newydd. Cynhaliodd arweinwyr EAS sesiynau briffio rhithwir rheolaidd a phoblogaidd iawn i Gadeiryddion Llywodraethwyr, ac roedd 95% o Gadeiryddion ysgolion uwchradd yn y rhanbarth yn bresennol. Roedd yr arweinwyr a ymatebodd i'r arolwg yn arbennig o gadarnhaol am y cymorth gan EAS i'w helpu i drefnu cyfarfodydd rhithwir gyda chyrff llywodraethol neu bwyllgorau rheoli, a pharhau â busnes ysgolion ac UC'Dau.

## **Cefnogi dysgwyr bregus**

Yn ystod y cyfnod addasu o fis Mawrth ymlaen, dychwelodd bron bob un o'r ymgynghorwyr her i'w swydd yn yr ysgol. Cadwodd y prif ymgynghorwyr her mewn cysylltiad agos ag ysgolion yn ystod tymor yr haf, yn enwedig ynghylch lles disgyblion a staff. Lluniodd swyddogion o'r tîm llesiant a thegwch becyn cymorth 'WELL' i ysgolion ei gwblhau ar ddechrau'r cyfnod cau ysgolion. Fe wnaethant annog ysgolion i edrych eto ar hwn ym Mehefin cyn y cyfnod 'ailgydio, dal i fyny' ac eto cyn dychwelyd i'r ysgol yn llawn ym mis Medi, ac addasu'u cynllunio yn sgil eu canfyddiadau.

Cyfarfu swyddogion o'r tîm llesiant a thegwch â phrif swyddogion cynhwysiant o'r 5 awdurdod lleol bob mis i sicrhau bod y rhanbarth a'r awdurdodau lleol, rhyngddynt, yn cynnig cymorth ac arweiniad clir a chyson i ysgolion ynghylch dysgwyr bregus. Sefydlodd swyddogion EAS y byddent yn cadw mewn cysylltiad â'r arweinwyr lles

mewn ysgolion bob mis. Yn y flwyddyn cyn y pandemig, rhoddodd EAS arian i bob ysgol uwchradd fel bod ganddynt arweinydd dysgwyr bregus, a pharhaodd swyddogion i gyfathrebu â'r rhain trwy gydol tymor yr haf. Cyfarfu swyddogion â rheolwyr UC'Dau a phenaethiaid ysgolion arbennig bob mis ar ddechrau tymor yr haf i ganolbwyntio ar rannu arfer effeithiol, er enghraifft ynghylch sut i ymgysylltu â dysgwyr anodd eu cyrraedd.

Roedd uwch arweinwyr EAS yn ymwybodol o'r pwysau ar staff ysgolion yn ystod tymor yr haf a chomisynnodd EAS sefydliad allanol i ddarparu 5 fideo i gefnogi lles staff. Rhoddodd y rhain gyngor defnyddiol, gan gynnwys pwysigrwydd cynnal lefelau iechyd corfforol da a sut i reoli emosiynau yn ystod amgylchiadau anodd.

Creodd swyddogion restr chwarae '5Rs to wellbeing' er mwyn i ysgolion ystyried sut i baratoi i groesawu pob disgybl yn ôl ddiwedd Mehefin. Yn ystod ein galwadau ffôn ymgysylltu ag ysgolion, dywedodd penaethiaid fod yr adnodd hwn wedi bod yn ddefnyddiol. Mae'r adnodd hwn yn darparu arweiniad ar ailgrwpio ac mae'n hyrwyddo pwysigrwydd myfyrio, adnewyddu, ailsefydlu perthnasoedd ac ymlacio. Prynodd EAS fynediad at gymuned 'Agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (SEAL)' i bob ysgol yn y rhanbarth er mwyn eu helpu i gael at adnoddau ychwanegol i gefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Hefyd, adnewyddodd swyddogion y dysgu proffesiynol i athrawon a oedd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn y gorffennol, a rhoddont yr hyfforddiant i athrawon nad oeddent wedi cymryd rhan ynddo yn flaenorol. Yn ystod ein galwadau ymgysylltu ag ysgolion, dywedodd penaethiaid eu bod o'r farn bod yr hyfforddiant a gynigiwyd, er enghraifft ar gynorthwyo disgyblion â thrawma a phrofedigaeth, wedi'i deilwra'n dda i'r cyfnod clo.

---

## **Gwaith y consortiwm rhanbarthol i gefnogi ei ysgolion ac UC'Dau o Fedi 2020 ymlaen**

---

### **Arweinyddiaeth a chydweithio**

Er mwyn paratoi i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol ac UC'Dau yn llawn ym Medi, diwygiodd EAS ei gynllun busnes, gan addasu blaenoriaethau i fodloni anghenion ysgolion.

O fis Medi ymlaen, ailgydiodd ymgynghorwyr her mewn ysgolion yn eu rôl, ond parhaodd y gwasanaeth i gefnogi'r capasiti mewn ysgolion trwy anfon aelodau staff ar secondiad i ysgolion. Er enghraifft, mae ymgynghorwyr pwnc yn gweithio mewn ysgolion am gyfran o'u hamser.

Yn unol â nifer o awdurdodau lleol, ni ragwelodd y consortiwm y byddai tarfu mor helaeth ar ysgolion ac UC'Dau mor gynnar yn y flwyddyn academaidd. Er enghraifft, yng Nghaerffili, cafodd ysgolion achosion positif o COVID-19 o fewn ychydig ddiwrnodau cyntaf y tymor. I ddechrau, teimlai arweinwyr y gallent ailgychwyn gweithgarwch 'arferol', fel ymweliadau ymgynghorwyr her ag ysgolion. Fodd

bynag, er mwyn ymateb i raddfa'r tarfu, a phryderon gan uwch arweinwyr mewn ysgolion ac UC'Dau, diwygiodd swyddogion EAS eu dulliau a'u hamserlenni, a lleihau eu gofynion gwreiddiol ar ysgolion ac UC'Dau. Er enghraifft, cynigiwyd amser a chymorth ychwanegol i gwblhau cynlluniau grant a chynlluniau gwella.

O fis Medi ymlaen, parhaodd y gwasanaeth i ddefnyddio model Breakspear i fframio'i waith. Darparodd y gwasanaeth wybodaeth i ysgolion ac UC'Dau am y model a'u hannog nhw i fabwysiadu'r dull hwn. Cyn y pandemig, roedd y gwasanaeth wedi dechrau llunio cysylltiadau ag ysgolion yn Awstralia. Ym mis Medi, trefnodd EAS weminar gyda phenaethiaid yn Awstralia er mwyn iddynt rannu'u profiadau yn ôl eu profiad nhw o'r pandemig, ac ail don, yn gynt nag yn y DU. Roedd nifer dda o benaethiaid yn bresennol yn y gweminar hwn ac roedd yn ddefnyddiol iddynt.

Mae EAS wedi canolbwyntio llawer o'i waith ar gyfathrebu â phartneriaid. Mae staff wedi cynnal pob rhwydwaith presennol trwy gyfarfodydd o bell. Mae cyfarfodydd rheolaidd â'r grŵp strategaeth ar gyfer penaethiaid, sy'n cynnwys penaethiaid o bob sector, ynghyd â chymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), wedi helpu'r gwasanaeth i ddeall y materion dydd i ddydd sy'n wynebu ysgolion, a pha gymorth y mae ei angen. Mae cyfarfodydd sicrhau ansawdd misol gyda phob awdurdod lleol wedi parhau hefyd.

Mae arweinwyr EAS o'r farn bod y pandemig wedi ysgogi newidiadau sydd wedi bod yn fuddiol, ac y byddant yn eu cadw. Er enghraifft, mae cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddiant o bell yn arbed llawer o amser teithio ac maen nhw'n fwy cyfleus i ysgolion. Hefyd, mae gweithio o bell wedi galluogi'r gwasanaeth i gael cysylltiad â mwy o staff ysgolion ac UC'Dau nag y byddai wedi gwneud fel arfer.

Mae EAS yn ceisio barn rhanddeiliaid am ei ddarpariaeth i ysgolion. Hefyd, mae arweinwyr yn monitro cyfranogiad yn eu digwyddiadau a nifer y bobl sy'n mynd at eu deunyddiau. Fodd bynnag, gan nad yw staff EAS yn gallu ymweld ag ysgolion ac UC'Dau ar hyn o bryd ac ni all ymgynghorwyr her gynnal eu hystod arferol o weithgareddau monitro, ni allant werthuso effaith nac effeithiolrwydd eu gwaith yn llawn.

## **Hyrwyddo dysgu**

Mae EAS wedi parhau i ddatblygu ei waith yn cefnogi dysgu mewn ysgolion ac UC'Dau ers mis Medi. Yn gyffredinol, mae arweinwyr ysgol yn gadarnhaol am y cymorth a'r adnoddau sy'n cael eu darparu gan EAS. Yn benodol, maent wedi gwerthfawrogi'r cynnig dysgu proffesiynol a'r adnoddau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol, yn enwedig yr enghreifftiau gan ysgolion. Fodd bynnag, wrth i amser fynd rhagddo, teimlai llawer o arweinwyr fod lefel y wybodaeth oedd yn cael ei rhannu, a chyfyngiadau plattform y rhestr chwarae, yn golygu bod dod o hyd i'r adnoddau mwyaf defnyddiol yn anodd a llafurus. Trwy weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, daeth arweinwyr EAS i wybod am y pryderon hyn a sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â'r nhw.

### **Cameo: Gwefan 'Cefnogi Ein Hysgolion'**

Er mwyn ymateb i adborth gan randdeiliaid, mae EAS wedi creu gwefan newydd i leoli ei adnoddau cymorth i ysgolion. Mae'n haws llywio o gwmpas y wefan newydd na'r rhestr chwarae yr arferai'r gwasanaeth ei defnyddio. Mae adnoddau wedi'u labelu'n glir ac mae'n hawdd bwrw golwg drostynt. Mae'r wefan yn cynnwys adrannau ar bynciau gwahanol fel llywodraethu, gwella ysgolion, arweiniad ar ddefnyddio cyllid y grant cyflymu dysgu a chymorth â'r cwricwlwm. Hefyd, mae'r wefan yn cynnwys dolennau i wefan newydd arall sy'n gartref i'r holl adnoddau sy'n gysylltiedig â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Hefyd, mae'r adnoddau hyn wedi'u trefnu'n glir o dan themâu ac mae sawl enghraifft o astudiaethau achos a chyflwyniadau addysgiadol gan ysgolion, ynghyd â dolenni i adnoddau allanol defnyddiol. Er mwyn ei gwneud hi'n haws i arweinwyr amlygu unrhyw adnoddau newydd, cyfeirir at y rhain bob wythnos mewn adran ar wahân, cyn eu symud i'r adran â'r thema berthnasol. Mae staff EAS yn cynnig sesiynau rhagarweiniol ar-lein i'r gwefannau newydd. Mae'r sesiynau addysgiadol, poblogaidd hyn yn benodol i sector ac maent ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal ag arddangos y gwefannau, mae'r sesiynau hyn hefyd yn cynnwys dewis o sesiynau grŵp gyda chyflwyniadau gan ysgolion a chyfle i drafod mewn grwpiau bach.

Mae staff EAS wedi canolbwyntio'n bennaf ar helpu ysgolion i ddeall a datblygu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol, gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuont yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf. Prif yrrwr y gwaith hwn fu'r gweithgor o 40 ysgol a sefydlwyd ddiwedd tymor yr haf. Creodd ysgolion amrywiaeth o adnoddau ar themâu allweddol yn gysylltiedig â dysgu o bell a dysgu cyfunol, gan gynnwys arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol. Sicrhodd staff EAS ansawdd y rhain. Gosodwyd yr holl ddeunyddiau ar y wefan newydd.

Rhannodd y gwasanaeth gynllun strategol ar ffurf dogfen i'w golygu ar gyfer dysgu o bell/dysgu cyfunol gydag ysgolion, a bwriadwyd iddo fod o gymorth i arweinwyr wrth ysgrifennu cynllun datblygu'u hysgol neu'u UCD eu hunain. Roedd elfennau o'r ddogfen hon yn ddefnyddiol i benaethiaid ac arweinwyr ysgolion ac UCDAu wrth lunio'u cynlluniau eu hunain, ond roedd yn llethol i ychydig ohonynt, gan ei bod yn rhy hir.

Ym mis Hydref 2020, cynhaliodd EAS arolwg o ddysgu cyfunol er mwyn mesur dealltwriaeth ysgolion ac UCDAu, a pha gymorth yr oedd ei angen arnynt. Fe wnaeth adborth gan ymarferwyr a fynychodd gyrsiau ar-lein ategu hyn. Darparwyd trosolwg strategol o'r canfyddiadau ar gyfer pob awdurdod lleol, ynghyd â chymorth allweddol i EAS neu i'r awdurdod lleol i helpu ysgolion unigol.

Ar y cyfan, mae staff ysgolion ac UCDAu o'r holl awdurdodau lleol yn y rhanbarth wedi ymhél yn dda â chynnig dysgu proffesiynol EAS. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol ers mis Medi, gan gynnwys cynnig dysgu proffesiynol rhithwir i athrawon newydd gymhwyso, a gynhelir ar y cyd gan y pedwar rhanbarth. Ers symud y ddarpariaeth ar-lein yn ystod y cyfnod clo, mae mwy o ymarferwyr wedi cofrestru ar gyfer rhaglenni gan nad ydynt yn galw mwyach am ddiwrnodau llawn allan o'r ysgol a gellir mynd at ddeunyddiau



unrhyw bryd. I ymateb i'r galw hwn ac fel bod y ddarpariaeth ar gael i bawb, mae'r gwasanaeth wedi parhau i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu. Hefyd, mae wedi noddi ei raglenni gwella addysgu mwyaf poblogaidd ac wedi'u cynnig i bob lleoliad.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth teilwredig i ychydig o ysgolion penodol, yn enwedig yr ysgolion hynny sy'n peri pryder. Er enghraifft, mae ymgynghorwyr pwnc yn cynnig cyngor ac arweiniad penodol i bwnc ac mae EAS wedi parhau i frocera partneriaethau wedi'u hariannu gydag ysgolion y tu hwnt i'r rhanbarth, er mwyn cefnogi ysgolion penodol.

Mae EAS wedi darparu arweiniad, cyngor a chynlluniau enghreifftiol i ysgolion ar wario cyllid grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' Llywodraeth Cymru. Mae arweinwyr EAS wedi addasu'r offeryn monitro grantiau a ddatblygwyd ganddynt i ysgolion gynllunio a monitro sut maen nhw'n gwario pob cyllid grant er mwyn cynnwys y cyllid newydd hwn. Maent wedi rhoi cyfleoedd i benaethiaid gyfarfod a rhannu syniadau am wario'r cyllid.

Mae EAS wedi rhoi £10,000 o gyllid ychwanegol i bob ysgol uwchradd ei wario ar ddewislen o opsiynau i gefnogi dysgwyr yng nghamau allweddol 4 a 5. Lluniwyd y ddewislen hon gyda phenaethiaid ac mae'n cynnwys opsiynau fel prynu gwerslyfrau a deunyddiau adolygu, neu fanteisio ar gymorth dysgu i ddysgwyr penodol y tu allan i'r diwrnod ysgol. Yn ogystal, ac i ymateb i geisiadau gan benaethiaid, mae EAS wedi talu am becyn asesu ar-lein ar gyfer Blwyddyn 7 ym mhob ysgol uwchradd. Mae hyn yn cynnwys asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r asesiadau at ddefnydd mewnol yr ysgolion yn unig. Mae penaethiaid yn gwerthfawrogi'r pecyn cymorth ariannol ychwanegol hwn gan EAS ac maent yn gwerthfawrogi bod y consortiwm wedi ymgynghori â nhw. Hefyd, dychwelodd EAS gyfanswm o £75,000 i'r awdurdodau lleol a ddaeth o'r arbedion effeithlonwydd a wnaeth yn sgil gostyngiad mewn costau yn ystod y cyfnod pan roedd ysgolion ar gau.

Mae ymglymiad staff EAS â'r gwaith ar yr adnodd cenedlaethol i gefnogi addysgu'r Gymraeg wedi parhau ers Medi. Rhannwyd yr adnodd erbyn hyn, ac mae'n boblogaidd ymhlith ymarferwyr. Agwedd arbennig o lwyddiannus ar y gwaith hwn fu lansio gwefan i hwyluso astudio a mwynhau'r nofel, Llyfr Glas Nebo. Mae'r adnodd blaengar hwn yn cynnwys ffeiliau fideo a thaith rithwir, ynghyd â deunyddiau, gan gynnwys atebion enghreifftiol, sydd wedi'u mapio yn erbyn y fanyleb TGAU.

### **Cameo: Cefnogi medrau Cymraeg disgyblion**

Roedd staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn pryderu am effaith y cyfnod clo ar allu a hyder disgyblion i siarad Cymraeg, gan nad oedd llawer ohonynt wedi cael cyfle i ymarfer na chlywed yr iaith am sawl mis. I ymateb i hynny, gosododd EAS aelodau o'i dîm ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i gynyddu capasiti a helpu gydag adfer.

Er mwyn paratoi i ddychwelyd i'r ysgol ym Medi, darparodd tîm y Gymraeg EAS adnoddau pontio rhyngweithiol i ysgolion cynradd ac uwchradd. Hefyd, darparont

arweiniad i rieni yr oedd eu plant yn mynd i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, i ymateb i geisiadau gan benaethiaid.

## **Cefnogi dysgwyr bregus**

Wrth i ysgolion ailagor yn llawn ym mis Medi, darparodd y tîm llesiant a thegwch arweiniad defnyddiol i ysgolion fel y gallent gefnogi'u dysgwyr bregus. Roedd gan swyddogion o'r tîm sianeli cyfathrebu da ag athrawon arweiniol disgyblion bregus ysgolion yn barod, a olygai fod cyngor ac arweiniad yn cael ei roi i staff perthnasol ysgolion yn amserol. Mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd â'r athrawon hyn, ynghyd ag athrawon o'r sectorau ôl-16 ac UCD. Hefyd, maent yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â swyddogion cynhwysiant y pum awdurdod lleol yn y rhanbarth.

Cydnabu uwch arweinwyr EAS fod dysgwyr nad oeddent o reidrwydd yn fregus cyn dechrau'r pandemig wedi dod yn fregus o ganlyniad iddo. O ganlyniad, mae rhestr EAS o'r dysgwyr sy'n cael eu hystyried yn fregus wedi ehangu ac mae bellach yn cynnwys, er enghraifft, disgyblion nad yw'r rhyngrwyd neu ddyfeisiau digidol ar gael iddynt, disgyblion yr oedd eu rhieni'n gweithio ar sail amser llawn a dysgwyr o gartrefi Saesneg eu hiaith sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae swyddogion ac ymgynghorwyr her bellach yn ystyried sut y gallant gynnwys mynd i'r afael ag anghenion y dysgwyr hyn yn eu cefnogaeth i ysgolion.

Gweithiodd swyddogion gyda'r awdurdodau lleol yn eu rhanbarth i amlygu'r cymorth roedd ei angen ar gyfer dysgwyr bregus. Amlygodd awdurdodau lleol amrywiaeth o anghenion yn eu cymunedau nhw, er enghraifft datblygiad medrau llafaredd i ddisgyblion ifanc a'r angen i wella medrau rhifedd sylfaenol disgyblion. Gofynnodd un awdurdod lleol am gymorth i ofalwyr maeth fel y gallent helpu gyda dysgu gartref i'r plant maen nhw'n gofalu amdanynt. Gweithiodd swyddogion EAS gyda thîm gwasanaeth addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol i roi arweiniad ar ddefnyddio straeon yn effeithiol, gwybodaeth am y cwricwlwm newydd a strategaethau i helpu plant i reoli'u hemosiynau.

Datblygodd swyddogion adnoddau defnyddiol i ysgolion yn ystod cyfnod gwyliau'r haf ac roedd y rhain ar gael i ysgolion eu defnyddio o Fedi ymlaen, er enghraifft y rhaglen 'All Together Now'. Mae hon yn cynnwys wyth uned waith i'w defnyddio mewn ysgolion yn ystod hanner cyntaf tymor yr hydref. Mae'r adnodd yn cysylltu'n dda â Meysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm i Gymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y gall gefnogi ac ategu'r ddarpariaeth sydd eisoes ar waith mewn ysgolion. Mae'r rhaglen yn helpu ysgolion i wreiddio lles yn y cwricwlwm, gan sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel i hawliau'r plentyn a llais y disgybl.

Dywed arweinwyr ysgol fod y cymorth gan y tîm llesiant a thegwch wedi bod yn dda. Croesawont strategaethau EAS ar gyfer cefnogi dysgwyr bregus a'r gweithgareddau ymarferol yr oedd athrawon yn gallu'u defnyddio i hybu lles yn y cwricwlwm. Er enghraifft, roedd adnodd y '5Rs to wellbeing' yn arbennig o ddefnyddiol i athrawon ar gyfer cynllunio'u cymorth i ddysgwyr bregus wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn

nhymor yr hydref. Mae'r adnodd yn rhoi pwyslais ar ganolbwyntio ar berthnasoedd da a helpu plant i ymlacio mewn sefyllfaoedd a all achosi straen iddynt. Disgrifiodd un ysgol sut yr addasodd athrawon yr adnodd hwn i gefnogi disgyblion trwy ddatblygu dull '3Rs' at adfer, ailsefydlu ac ailgysylltu disgyblion ag arferion yr ysgol.

Cyn y pandemig, roedd EAS wedi bod yn gweithio gydag ychydig ysgolion i roi rhaglen Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Dan Anfantis (RADY) ar waith. Roedd penaethiaid yr ysgolion hyn yn awyddus i barhau â'r gwaith hwn gan ei fod yn rhoi ffocws i'w gwaith gyda disgyblion bregus, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu â'r rhaglen wedi cynyddu a, bellach, mae 26 chlwestwr o ysgolion yn defnyddio RADY ar draws y rhanbarth. Mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rhanbarthol bob tymor i athrawon ysgol sy'n ymwneud â'r rhaglen er mwyn rhannu arfer effeithiol, fel sut i gyrraedd y teuluoedd sydd wedi ymddieithrio fwyaf. Yn ogystal, hwylusodd EAS sesiynau i athrawon gydag ymgynghorwyr RADY. Fe wnaeth y rhain gynnwys fforymau ar y cyd ar ddysgwyr bregus gydag ysgolion yn Lloegr. Darparodd hyn brofiad rhwydweithio cadarnhaol a, thrwyddo, mae ysgolion wedi llunio cysylltiadau gwerthfawr ag ysgolion y tu hwnt i'r rhanbarth.

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, rhoddodd swyddogion gymorth ac arweiniad i ysgolion ar ffyrdd o ailymgysylltu disgyblion a oedd wedi ymddieithrio o'r ysgol yn ystod tymor yr haf. Rhannont arfer o'r UC Dau a'r gwasanaethau ieuencid ar draws y rhanbarth. Nododd swyddogion sut roedd ymgysylltiad disgyblion mewn ysgolion â lefelau tebyg o ddifreintedd yn amrywio, gan baru ysgolion a oedd wedi gallu ailymgysylltu disgyblion yn llwyddiannus gydag ysgolion oedd yn cael mwy o drafferth.

I ddechrau, canolbwyntiodd ymgynghorwyr her ar les disgyblion a staff wrth iddynt ailafael yn eu rolau yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Oherwydd bod y rhan fwyaf o ymgynghorwyr her yn benaethiaid hefyd, roeddent yn wynebu ystyriaethau tebyg o ran dychweliad disgyblion bregus i'r ysgol. Roeddent yn gallu rhannu'u profiad a'u harbenigedd eu hunain o hyn gydag uwch arweinwyr yr ysgol maen nhw'n eu cefnogi. Gweithiodd ymgynghorwyr her gyda phenaethiaid i amlygu blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r grantiau sydd ar gael i gefnogi dysgwyr bregus, er enghraifft y grant datblygu disgyblion. Yn eu cyfarfodydd ag ysgolion y tymor hwn, mae ymgynghorwyr her yn monitro cynnydd grwpiau o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae penaethiaid wedi amlygu pryderon am grwpiau a charfannau penodol o ddysgwyr, er enghraifft disgyblion Blwyddyn 1 a gollodd dymor olaf blwyddyn Derbyn. Hefyd, maent wedi amlygu meysydd medrau lle na wnaeth ddisgyblion fawr ddim cynnydd neu ddim cynnydd o gwbl yn ystod tymor yr haf, gan gynnwys ysgrifennu estynedig a darllen yn helaeth. Mae ymgynghorwyr her yn defnyddio'u gwybodaeth am flaenoriaethau ysgolion unigol i gyfeirio arweinwyr ysgol at gyfleoedd dysgu proffesiynol addas sy'n bodloni anghenion disgyblion bregus ym mhob ysgol. Mae swyddogion o'r tîm llesiant a thegwch yn gwybod bod angen iddynt fynd ati'n systematig i gasglu gwybodaeth am ddiffyg medrau disgyblion er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion fynd i'r afael â'r rhain.

Fe wnaeth swyddogion nodi a chyflwyno hyfforddiant ar raglenni ymyrryd defnyddiol y gallai cynorthwyrwyr addysgu mewn ysgolion eu defnyddio i gefnogi'r cwricwlwm i ddysgwyr bregus. Fe wnaeth y rhain gynnwys 'ymdopi a chysylltu' a 'darllen a rheoleiddio'. Mae ymdopi a chysylltu yn rhaglen ymyrryd chwe wythnos, gyda chynnwys ar wahân i ddisgyblion cynradd ac uwchradd, i helpu dysgwyr bregus i ymgynefino â bywyd ysgol. Mae darllen a rheoleiddio yn rhaglen pedair wythnos sy'n defnyddio llyfrau lluniau i helpu plant i siarad am eu profiadau a deall eu teimladau am y pandemig. Dywed penaethiaid fod y rhaglenni wedi cael effaith gadarnhaol yn yr ysgol, a bod y llyfrau lluniau yn enwedig yn adnodd addysgu gwerthfawr.

Parhaodd y tîm llesiant a thegwch â'u rhaglen dysgu proffesiynol yn nhymor yr hydref i athrawon sy'n gweithio gyda dysgwyr bregus. Ymatebodd swyddogion yn dda i adborth gan arweinwyr lles am anawsterau mynychu sesiynau yn ystod y diwrnod ysgol, a threfnont gynnal sesiynau ddiwedd y prynhawn. Mae digwyddiadau dysgu proffesiynol a chyfarfodydd rhwydwaith a gynhaliwyd ar ôl ysgol wedi bod yn boblogaidd ac, o ganlyniad, mae swyddogion wedi ailystyried y modd y byddant yn cyflwyno dysgu proffesiynol yn y dyfodol.

Mae EAS wedi parhau â'i waith gyda'r EEF y tymor hwn, gan rannu adnoddau a gweminarau gydag ysgolion. Mae swyddogion yn pwysleisio negeseuon EEF i ysgolion am bwysigrwydd hyfforddi staff yn dda ar gyfer yr ymyriadau maen nhw'n eu darparu a'r angen i gysylltu'u sesiynau'n dda â gwaith disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Edrychodd swyddogion eto ar yr hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gyflwynwyd yn flaenorol i ysgolion er mwyn helpu ysgolion i'w ystyried yn sgil y disgyblion sydd bellach yn fregus o ganlyniad i effaith y pandemig.

Mae swyddogion wedi buddsoddi mewn rhaglen dysgu proffesiynol i ategu gwaith RADY mewn ysgolion. Mae 'Meddwl yn Wahanol ar gyfer Dysgwyr Dan Anfantis' yn darparu modiwl hyfforddi bob hanner tymor sy'n canolbwyntio ar helpu athrawon i feddwl am effaith caledi ariannol ar ddisgyblion. Mae'r rhaglen yn rhoi arweiniad i athrawon ar sut gallant helpu i'r grŵp hwn o ddisgyblion gymryd mwy o ran mewn bywyd ysgol a sut gallant wella gobeithion a dyheadau disgyblion difreintiedig o oedran ifanc.

Mae holl ystod y wybodaeth am ddarpariaeth EAS i gefnogi dysgwyr difreintiedig ac bregus ar gael i staff ysgol ar wefan newydd EAS, 'Cefnogi Ein Hysgolion'.